# PWYLLGOR SAFONAU

**(Remotely Via Teams)**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Mercher, 27 Ionawr 2021** |
| **Cadeirydd:** | C.L.Jones |
| **Is-gadeirydd:** | B.Richards |
| **Aelodau Annibynnol**: | L.Fleet, T.Ward a/ac G.Reynolds |
| **Aelodau NPTCBC:** | **Cynghorydd** S.E.Freeguard a/ac D.Keogh |
| **Aelodau'r Pwyllgor Cymunedol:** | **Cynghorydd** |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Griffiths a/ac T.Davies |
| **Ymddiheuriadau:** | **Cynghorydd** |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   **PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2020 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

2. **ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON CYHOEDDUS CYMRU 2019 2020**

   Trafododd yr aelodau'r gweithgorau a grybwyllwyd yn yr adroddiad, a fformat y rhain. Nodwyd mai prif nod y grwpiau hyn fyddai sicrhau cysondeb o ran ymagwedd ar draws y cyfarwyddiaethau.

   **PENDERFYNWYD y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.**

3. **CANIATÁU GOLLYNGIADAU AC ADNEWYDDU GRANTIAU O DAN ADRAN 81(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

   Nododd yr aelodau y byddai'r ceisiadau am ollyngiadau sydd dan ystyriaeth yn ystod cyfarfod heddiw ar waith am weddill y cyngor

etholedig hwn tan gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau'n dilyn Cyfarfod Blynyddol y cyngor yn 2022 os cânt eu cymeradwyo.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r swyddog monitro wybod i'r aelodau am ddau ddiwygiad bach i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Ar dudalen 24 yn yr amserlen Gollyngiad Cyflogaeth newidiwyd y Cynghorydd M. Crawley i fod y Cynghorydd *M. Crowley*. Ar dudalen 26, dylai gollyngiad y Cynghorydd D Jones gyfeirio at y *Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du*, nid Un Llais Cymru.

Ystyriodd aelodau adnewyddiadau a cheisiadau a dderbyniwyd am ollyngiadau sy'n perthyn i gyflogaeth a
gollyngiadau amrywiol, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** (a) y dylid cymeradwyo'r ceisiadau am ollyngiadau sy'n perthyn i gyflogaeth a nodir ym mharagraff 16 yr adroddiad a ddosbarthwyd er mwyn i'r aelod a restrir siarad a phleidleisio, a bod y gollyngiad yn berthnasol yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau sy'n dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022;

(b) y dylid cymeradwyo'r cais am ollyngiad a nodwyd ym mharagraff 20 dan yr amgylchiadau a restrir ym mharagraff 21, a bod y gollyngiad yn berthnasol yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau sy'n dilyn y Cyfarfod Blynyddol ar gyfer 2022.

## 4. CYLCH GWAITH Y PWYLLGOR SAFONAU

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 5. MATERION CÔD YMDDYGIAD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Trafodwyd ystyr 'ymgysylltu a chynorthwyo', fel y’u cynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Nodwyd y gallai hyn olygu sawl peth, gan gynnwys sicrhau bod cynghorau tref/cymuned a'u clercod yn ymwybodol o sut y dylent weithredu'r Côd Ymddygiad trwy daflenni, sgyrsiau, hyfforddiant, etc.

**PENDERFYNWYD:** y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r swyddog monitro'n cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Safonau ynghylch hyfforddi cynghorau tref/cymuned.

**CADEIRYDD**